



CYNGOR BRO MORGANNWG

DISGRIFIAD SWYDD

DYNODIAD/TEITL Y SWYDD	:	Cynorthwy-ydd Cegin Wrth Gefn
RHIF Y SWYDD	:	RKA1
ADRAN/CYFARWYDDIAETH	:	Gwasanaethau Cymdeithasol
IS-ADRAN/CANGEN	:	Gwasanaethau Oedolion
LLEOLIAD	:	Cartrefi Preswyl ledled Bro Morgannwg
GRADDFFA'R SWYDD	:	A
YN ATEBOL I	:	Cogydd a Rheolwr
YN GYFRIFOL AM	:	Cyflawni dyletswyddau yn unol â chyfarwyddyd y cogydd a'r person mewn gofal
CYSWLLT	:	
PRIF BWRPAS Y SWYDD	:	Gweithio fel rhan o dîm i sicrhau bod gwasanaeth pryddau bwyd o safon yn cael ei ddarparu

PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

Mae'r disgrifiad swydd yn cyfeirio at brif ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r Swydd. Nid yw o angenrheidrwydd yn rhestru mewn manylder yr holl dasgau a fydd yn ofynnol er mwyn cyflawni'r dyletswyddau a'r chyfrifoldebau hyn.

- Cyflawni pob agwedd ar ddyletswyddau cegin yn unol â chyfarwyddyd y cogydd a'r person mewn gofal
- Cydymffurfio â Rheoliadau Iechyd a Diogelwch a Hylendid a pholisïau / gweithdrefnau arlwy.

- Cymryd rhan yn y cynllun hyfforddi parhaus
- Mynychu a chyfrannu at gyfarfodydd staff rheolaidd er mwyn sicrhau cyfathrebu da ac i ddatblygu amgylchedd y cartref
- Yn unol â chyfarwyddyd y cogydd, cymryd rhan yn y gwaith o baratoi, coginio a chyflwyno'r bwyd i gyd, yn unol â'r ddeddfwriaeth bresennol, gweithdrefnau a chanllawiau
- Os yw hynny'n briodol, ysgwyddo dyletswyddau a chyfrifoldebau'r cogydd yn ôl yr angen, a/neu gyflawni dyletswyddau ar gais y tîm rheoli
- Sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Ariannol, Gorchmynion Sefydlog, Polisiâu a Gweithdrefnau'r Cyngor.
- Gweithredu egwyddorion Polisi Cyfleoedd Cyfartal y Cyngor wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod.
- Cadw at ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch / polisiâu a gweithdrefnau perthnasol y Cyngor a chymryd gofal rhesymol am eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac iechyd a diogelwch pobl eraill a all gael eu heffeithio'n niweidiol gan eich gweithredoedd / esgeulustod.
- Gweithredu egwyddorion Polisi Amgylcheddol y Cyngor wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod.
- Adrodd yn ôl yn ddi-oed am unrhyw bryderon diogelu i'r swyddog diogelu priodol.
- Unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau eraill fel sy'n berthnasol i raddfa'r swydd ac yn unol â'i chymeriad cyffredinol, fel y gofynnir yn rhesymol gan y Prif Swyddog o dro i dro.

LLOFNOD:
(Cyfarwyddwr/Prif Swyddog)

DYDDIAD:

LLOFNOD:
(Deiliad y Swydd)

DYDDIAD: